Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# **Creu Senedd i Gymru:** Dogfen ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 12 Chwefror 2018 ac yn dod i ben ar 6 Ebrill 2018



www.seneddydyfodol.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.seneddydyfodol.cymru**

Mae modd cael copïau o'r ddogfen hon mewn fformat hygyrch hefyd, gan gynnwys fersiwn hawdd ei darllen, Braille, print bras, tâp sain neu gopi caled gan:


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Twitter: **@CynulliadCymru**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol neu ddifrïol. Mae'n rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# **Creu Senedd i Gymru:** Dogfen ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 12 Chwefror 2018 ac yn dod i ben ar 6 Ebrill 2018



# Cynnwys

Rhagair y Llywydd ........ 4
Trosolwg ........ 6
Sut i ymateb i’r ymgynghoriad hwn ........ 7
Sut y byddwn yn trin eich gwybodaeth ........ 8
Y cefndir ........ 10
1. Faint o Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad? ........ 13
2. Sut y dylid ethol Aelodau'r Cynulliad? ........ 19
3. Pwy ddylai gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad? ........ 29
4. Pwy ddylai fod yn gymwys i fod yn Aelod Cynulliad? ........ 39
5. A ddylid symleiddio'r gyfraith sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau? ........ 42
6. A ddylai'r Cynulliad fod â hyblygrwydd i benderfynu ar ei drefniadau mewnol? ........ 44
7. Pa effaith allai'r cynigion hyn eu cael? ........ 46
Atodiad 1: Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad ........ 48
Atodiad 2: Datganoli yng Nghymru ers 1999 ........ 56
Atodiad 3: Modelau o'r etholaethau aml-aelod arfaethedig ........ 58

# Rhagair y Llywydd



Mae *Deddf Cymru 2017* yn nodi dechrau cyfnod newydd o ddatganoli yng Nghymru, gan roi cyfle inni wneud newidiadau pellgyrhaeddol i'n deddfwrfa. Mae gennym gyfle nawr i greu'r senedd genedlaethol y mae pobl Cymru'n haeddu ei chael i fod yn llais drostynt ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif; senedd sy'n adlewyrchu pobl Cymru yn well ac y gallant fod yn falch ohoni.

Un o'r camau pwysig fydd defnyddio'r pwerau yn *Neddf Cymru 2017* i newid enw'r Cynulliad i Senedd Cymru/Welsh Parliament. Erbyn hyn, mae gennym bŵer hefyd i newid maint, system etholiadol a threfniadau mewnol y sefydliad, i greu senedd sydd â'r capasiti a'r dyluniad i wirioneddol weithio i Gymru.

Y llynedd, sefydlodd Comisiwn y Cynulliad Banel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i roi cyngor cadarn a gwleidyddol ddiduedd inni ar nifer yr Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad, y system etholiadol fwyaf addas, a'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiad y Cynulliad. Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Panel adroddiad manwl  o'i ganfyddiadau a'i argymhellion. Darparodd y Panel neges glir am gapasiti'r sefydliad hwn i gyflawni ar gyfer pobl Cymru. Daeth i'r casgliad fod y Cynulliad, gyda dim ond 60 Aelod, yn rhy fach i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

Rwy'n deall nad peth poblogaidd o bosib yw galw am ragor o wleidyddion. Serch hynny, er mwyn creu senedd sy'n gweithio i Gymru, mae'r Panel Arbenigol yn dweud yn ei adroddiad fod angen gweithredu i fynd i'r afael â'r bwlch o ran capasiti. Rhoddwyd cynnig eisoes ar ddulliau eraill o gynyddu capasiti, ond ni fu'r dulliau hynny, ynddynt eu hunain, yn ddigon.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn am argymhellion y Panel Arbenigol, ac am ddiwygiadau eraill i drefniadau etholiadol a gweithredol y Cynulliad a allai ei wneud yn ddeddfwrfa fwy hygyrch ac effeithiol. Dyma ddechrau sgwrs â chi, pobl a chymunedau Cymru am y math o sefydliad yr ydych am i Senedd Cymru fod.



Elin Jones AC
Llywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Trosolwg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw’r corff sy’n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu’r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn hwyluso ei lwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy’n cyflawni’n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad arall a enwebwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gynorthwyo’r Cynulliad Cenedlaethol.

Ar 1 Ebrill 2018, bydd *Deddf Cymru 2017* yn rhoi pwerau i'r Cynulliad dros ei drefniadau etholiadol a mewnol. Mae'r Comisiwn yn awyddus i gael barn am sut y gellid newid trefniadau etholiadol a mewnol y Cynulliad.

Mae'r ddogfen hon:

- Yn esbonio sut i ymateb i'r ymgynghoriad, a sut y caiff eich safbwyntiau chi eu defnyddio.
- Yn rhoi gwybodaeth gefndir am ddatganoli yng Nghymru ers 1999.
- Yn amlinellu'r pwerau yn *Neddf Cymru 2017* a fydd yn galluogi'r Cynulliad i benderfynu ar ei drefniadau etholiadol a mewnol ei hun.
- Yn ceisio'ch barn am newidiadau arfaethedig i drefniadau etholiadol a mewnol y Cynulliad.

# Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Mae Comisiwn y Cynulliad yn awyddus i glywed eich barn. Hoffem glywed gan aelodau o'r cyhoedd, academyddion, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill, gan y rheini sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad a gwleidyddiaeth yng Nghymru yn aml, a chan y rhai nad ydynt fel arfer yn gwneud hynny.

Y cyfnod ymgynghori yw rhwng 12 Chwefror 2018 a 6 Ebrill 2018.

Gwahoddir atebion i'r cwestiynau a gyflwynir yn y ddogfen hon. Mae'r cwestiynau hefyd wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn Atodiad 1.

Mae croeso i chi ymateb i bob agwedd ar y cynigion neu ar unrhyw un neu ragor ohonynt. Rydym hefyd yn croesawu tystiolaeth ysgrifenedig ategol ac ychwanegol lle bo hynny'n berthnasol.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

- Ar wefan y Cynulliad: **www.SeneddYDyfodol.cymru**
- Trwy lenwi'r ffurflen ymateb hon a **http://bit.ly/Ffurflen-Ymateb-Y-Senedd-Y-Dyfodol** :
  - Ei hanfon mewn neges e-bost at: **ComisiwnyCynulliad.Ymgynghori@cynulliad.cymru**
  - Ei hanfon drwy'r post at: **Rhadbost [Freepost], Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Sut y byddwn yn trin eich gwybodaeth

## Pwy ydym ni

Comisiwn y Cynulliad yw rheolydd data y wybodaeth yr ydych yn ei darparu, a bydd yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

## Pam rydym yn casglu'r wybodaeth hon

Bydd eich sylwadau yn cael eu defnyddio i lywio gwaith Comisiwn y Cynulliad ar ddiwygio Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er enghraifft mewn perthynas â'i faint a'i drefniadau etholiadol, gweithredol a mewnol.

## Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth a gawn gennych

Bydd staff Comisiwn y Cynulliad sy'n rhan o'r ymgynghoriad yn gweld y sylwadau ar eu hyd. Mae'n bosibl hefyd y bydd Comisiynwyr y Cynulliad ac Aelodau eraill y Cynulliad yn gweld y sylwadau. Bydd yr holl ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori (gan gynnwys y rhai a gyflwynir ar bapur) yn cael eu storio yn Survey Monkey. Mae Survey Monkey weithiau'n storio gwybodaeth y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Mae gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd yn defnyddio'ch gwybodaeth ar gael ar ei wefan:

**https://www.surveymonkey.com/mp/policy/privacy-policy/**

## Cyhoeddi sylwadau

Mae'n bosibl y bydd Comisiwn y Cynulliad yn cyhoeddi'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn rhannol neu'n gyflawn, ar wefan y Cynulliad. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi rhannau o'ch sylwadau mewn dogfennau a gaiff eu llunio ar ôl yr ymgynghoriad ac a gyhoeddir ar wefan y Cynulliad. Bydd unrhyw ymatebion sy'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd.

Rhowch wybod os byddai'n well gennych inni beidio â chyhoeddi'ch sylwadau na dyfynnu ohonynt.

Os byddwn yn cyhoeddi sylwadau a anfonwyd gennych ar ran sefydliad, byddwn yn cynnwys eich enw, teitl eich swydd, ac enw'r sefydliad gyda'ch sylwadau. Os

byddwn yn cyhoeddi sylwadau a anfonwyd gennych chi'n bersonol, ni fyddwn yn datgelu eich enw dim ond os gwnaethoch ofyn inni wneud hynny.

## Pa mor hir y byddwn yn cadw'r wybodaeth a gawn gennych

Bydd yr ymatebion yn cael eu cadw ar ein system TG ddiogel ein hunain hyd nes y bydd Comisiwn y Cynulliad wedi gorffen yr ymgynghoriad ac unrhyw waith dilynol yn y meysydd a amlinellir yn y ddogfen hon.

## Cysylltu â chi

Efallai y byddwn yn defnyddio'r manylion cyswllt a gawsom gennych i gysylltu â chi mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn a'ch sylwadau. Efallai y byddwn hefyd am gysylltu â chi yn y dyfodol mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn, eich sylwadau, a gwaith y Comisiwn ar ddiwygio'r Cynulliad. Rhowch wybod wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad a ydych am inni gadw eich manylion cyswllt a chysylltu â chi at y dibenion hyn. Os penderfynwch adael inni gysylltu ymhellach â chi, fe allwch ddewis dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg trwy roi gwybod i ni.

## Ceisiadau i Gomisiwn y Cynulliad am wybodaeth

Os gwneir cais am wybodaeth o dan y ddeddfwriaeth hawl i wybodaeth, efallai y bydd yn rhaid datgelu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych neu ran ohoni. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan Gomisiwn y Cynulliad at ddibenion cyhoeddi. Dim ond os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith y byddwn yn gwneud hynny.

## Eich hawliau

Bydd eich data personol yn cael eu prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd gan Gomisiwn y Cynulliad, hynny yw ymgynghoriad ar ddiwygio'r Cynulliad. Os hoffech chi: arfer unrhyw un o'r hawliau sydd gennych o dan y ddeddfwriaeth berthnasol (fel yr hawl i gael gweld gwybodaeth), gofyn cwestiwn neu wneud cwyn am y ffordd y defnyddir eich gwybodaeth, dylech gysylltu â Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth y Cynulliad: **alison.bond@cynulliad.cymru**.

Gallwch hefyd wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn credu nad ydym wedi defnyddio'ch gwybodaeth yn unol â'r gyfraith. Mae manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gael ar ei gwefan: **https://ico.org.uk/concerns/** .

# Y cefndir

## Datganoli yng Nghymru

Heddiw, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn sefydliad gwahanol iawn i'r un a sefydlwyd ym 1999 (gweler Atodiad 2 am ragor o wybodaeth am ddatganoli yng Nghymru). Bellach mae gan y Cynulliad bŵer i wneud deddfau ac i gytuno ar drethi, yn ogystal â dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud a'r £15 biliwn y mae'n ei wario bob blwyddyn. O ganlyniad, mae rôl a chyfrifoldebau'r Cynulliad a'i Aelodau wedi cynyddu'n sylweddol ers 1999, ond mae nifer yr Aelodau wedi aros yr un peth, sef 60.

Ar 1 Ebrill 2018 bydd cyfnod newydd yn dechrau o ran datganoli yng Nghymru. Ar y diwrnod hwn, bydd llawer o ddarpariaethau *Deddf Cymru 2017* yn dod i rym. Ymhlith pethau eraill, mae'r Ddeddf yn cyflwyno model newydd o ddatganoli — model cadw pwerau sy'n debyg i'r hyn sydd wedi'i sefydlu yn yr Alban ac yn rhoi pwerau newydd i Lywodraeth Cymru mewn meysydd penodol.

Mae *Deddf Cymru 2017* yn allweddol am ei bod yn rhoi i'r Cynulliad, a hynny am y tro cyntaf, bwerau i ddiwygio rhannau o Ddeddf 2006 sy'n pennu trefniadau etholiadol, gweithdrefnol a mewnol y Cynulliad. Cyn hynny, Senedd y DU oedd â'r pwerau hyn.

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad y byddai, gan weithredu ar ran y sefydliad, yn bwrw ymlaen â gwaith i archwilio sut y gellid defnyddio'r pwerau newydd yn *Neddf Cymru 2017* i ddiwygio'r Cynulliad, gan gynnwys mynd i'r afael â chapasiti'r Cynulliad.[1]

Yn dilyn cytundeb unfrydol y Cynulliad a chyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd, cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad ym mis Mehefin 2017 ei fod am gyflwyno deddfwriaeth cyn 2021 i newid enw'r sefydliad i Senedd Cymru/Welsh Parliament

[1] Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **'Comisiwn y Cynulliad yn cytuno ar ei uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol'**, 14 Tachwedd 2016

— enw sy'n adlewyrchu'r cyfrifoldeb sydd ar y ddeddfwrfa a'i Haelodau, ac a gaiff ei gydnabod a'i ddeall gan y rhai y mae'n eu gwasanaethu.[2]

Mae'r newid hwn yn ceisio sicrhau gwell dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o waith y Cynulliad, yn ogystal ag annog mwy o ymgysylltiad rhwng y sefydliad a'r bobl a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Fodd bynnag, mae cyfle hefyd yn *Neddf Cymru 2017* i ystyried:

- y capasiti sydd ei angen ar y Cynulliad i wasanaethu'r bobl a'r cymunedau y mae'n eu cynrychioli;
- y posibilrwydd o rymuso ein democratiaeth, ac ennyn diddordeb pobl ifanc; ac
- a yw'r cydbwysedd rhwng cadernid a hyblygrwydd trefniadau mewnol ac etholiadol y Cynulliad yn briodol ar gyfer deddfwrfa aeddfed.

## Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Ar 1 Chwefror 2017, cyhoeddodd y Llywydd fod Comisiwn y Cynulliad wedi ffurfio Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol ('y Panel') i roi cyngor gwleidyddol ddiduedd ar nifer yr Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad, y system etholiadol fwyaf addas, a'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.[3]

Yr Athro Laura McAllister CBE, Athro Polisi Cyhoeddus a Llywodraethiant Cymru yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd, fu'n arwain gwaith y Panel ac yn ei gadeirio. Dewiswyd aelodau eraill y Panel am yr arbenigedd helaeth a oedd ganddynt ym meysydd systemau etholiadol, gwaith a chapasiti seneddau, sefyllfa gyfansoddiadol y Cynulliad, a materion ehangach o ran llywodraethu, gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth ac ymgysylltu.[4]

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Panel adroddiad, sef ***Senedd sy'n Gweithio i Gymru.*** Mae'r adroddiad yn gwneud 16 argymhelliad ar gyfer newid, ac mae'r Panel o'r farn y dylid eu gweithredu cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

---

[2] Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***'Datganiad ysgrifenedig: Rhaglen Diwygio'r Cynulliad'***, 13 Mehefin 2017

[3] Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***'Datganiad ysgrifenedig ar y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad'***, 1 Chwefror 2017

[4] I gael rhagor o wybodaeth am y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, gan gynnwys ei aelodaeth, ei gylch gorchwyl, y dystiolaeth a ystyriwyd ganddo a'i adroddiad, gweler **www.cynulliad.cymru/diwygioetholiadol**.

> "Ein her ni i'r Cynulliad yw ei fod yn achub ar y cyfle hwn i ddiwygio'r sefydliad, i adfywio democratiaeth Cymru, ac i fywiogi a sbarduno pleidleiswyr drwy ymestyn yr etholfraint a sefydlu system etholiadol sy'n seiliedig ar yr egwyddorion a nodwyd gennym. Yn sgil hynny, dylai etholiad 2021 greu deddfwrfa sydd â'r capasiti i gynrychioli pobl Cymru a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Galwad i weithredu yw ein hadroddiad; galwad i'r Cynulliad weithredu i sicrhau ei fod yn datblygu'n Senedd sydd wirioneddol yn gweithio i bobl Cymru."[5]

Mae nifer o'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon yn seiliedig ar argymhellion y Panel Arbenigol. Rydym am glywed eich barn chi am yr argymhellion a sut y gellid bwrw ymlaen â hwy mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod y Cynulliad yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau yn awr ac yn y dyfodol mor effeithiol â phosibl.

## Cynigion ar gyfer diwygio

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cynigion ar gyfer diwygio trefniadau etholiadol a mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r cwestiynau yr hoffem i chi eu hateb mewn perthynas â'r cynigion. Wrth ateb y cwestiynau hyn, byddai o gryn gymorth pe gallech nodi unrhyw fanteision, costau neu risgiau a allai ddeillio o'r cynigion. Gallai manteision, costau neu risgiau o'r fath fod yn berthnasol i chi yn bersonol, i'r sefydliad rydych chi'n gweithio iddo, neu i unigolion neu sefydliadau eraill.

[5] Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, ***Senedd sy'n Gweithio i Gymru***, Rhagfyr 2017, t.228

# 1. Faint o Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad?

## Y cefndir

Yn 2003, argymhellodd Comisiwn Richard ar Bwerau a Threfniadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru y byddai angen 80 Aelod ar y Cynulliad i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol pe bai'n cael pwerau deddfu sylfaenol.[6] Er i argymhellion eraill Comisiwn Richard gael eu gweithredu, ac er i'r Cynulliad gael pwerau deddfu sylfaenol ar ôl refferendwm 2011, ni fu newid yn nifer yr Aelodau.

Yn 2014, dywedodd Comisiwn Silk hefyd, yn ei adroddiadau ar bwerau cyllidol a deddfwriaethol y Cynulliad, fod Cynulliad o 60 Aelod yn rhy fach.[7] Mae'r rhan fwyaf o argymhellion Comisiwn Silk wedi'u gweithredu trwy gyfrwng Deddfau Cymru 2014 a 2017, ond nid aethpwyd i'r afael â maint y sefydliad. Ym mis Ionawr 2015, daeth Comisiwn trawsbleidiol y Pedwerydd Cynulliad i'r casgliad unfrydol a ganlyn: "Gyda dim ond 60 o Aelodau, mae diffyg pŵer yn y Cynulliad Cenedlaethol ond mae gormod o bwysau yn cael ei roi arno".[8]

Cyn *Deddf Cymru 2017*, Senedd y DU oedd â'r pŵer i newid maint y Cynulliad. Ar 1 Ebrill 2018, bydd *Deddf Cymru 2017* yn rhoi pwerau deddfwriaethol i'r Cynulliad fel y gall benderfynu ar ei faint ac ar ei drefniadau etholiadol.

Er mwyn cynorthwyo Comisiwn y Cynulliad i ystyried a ddylai'r pwerau hyn gael eu harfer, ac os felly, sut, gofynnwyd i'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ystyried y dystiolaeth, a gwneud argymhellion ar nifer yr Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad i gyflawni ei swyddogaethau. Ystyriodd y Panel:[9]

---

[6] Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Adroddiad Comisiwn Richard***, 2004

[7] Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, ***Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru***, 2014

[8] Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Dyfodol y Cynulliad: sicrhau capasiti i gyflawni ar gyfer Cymru***, Ionawr 2015

[9] I gael rhagor o wybodaeth am drafodaethau'r Panel ar y materion hyn, darllenwch Ran 2 o ***Senedd sy'n Gweithio i Gymru***.

1

**Yr hyn y mae Aelodau'r Cynulliad yn ei wneud**: daeth y Panel i'r casgliad fod rolau'r Aelodau yn amrywiol a chymhleth. Maent yn ddeddfwyr, yn craffu ar bolisi a chyllid, yn gyflogwyr sydd â chyfrifoldebau am staff, eiddo a chontractau, ac maent yn wleidyddion etholedig â chyfrifoldebau pwysig i'w hetholwyr a'u plaid. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cynrychioli eu hetholwyr drwy ymgymryd â gwaith achos, arwain neu gyfrannu at ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol, a threfnu digwyddiadau lleol neu fynd i ddigwyddiadau lleol.

Mae'r Aelodau hefyd yn gyfrifol am graffu ar benderfyniadau polisi, deddfwriaethol ac ariannol Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a chynnal trosolwg ohonynt. Tynnodd y Panel sylw at yr effaith gadarnhaol y gall y gwaith hwn ei chael ar fywydau pobl yng Nghymru, drwy wella polisïau, deddfwriaeth a phenderfyniadau gwario.

Dywedodd y Panel fod system bwyllgorau'r Cynulliad yn gyfrwng allweddol ar gyfer craffu a throsolwg. Bu'n ystyried strwythur presennol y pwyllgorau, capasiti'r Cynulliad o ran ei amserlen, a'r amser sydd ei angen ar gyfer paratoi, ymchwilio, gweithgarwch ymgysylltu anffurfiol ac amser cyfarfod ffurfiol. Daeth y Panel i'r casgliad, os yw gwaith craffu i fod yn effeithiol, bod angen digon o Aelodau, nad ydynt yn Llywodraeth Cymru, i'w dwyn i gyfrif. Trwy beidio â chynnwys deiliaid swyddi, fel gweinidogion y llywodraeth, nifer fach o Aelodau sydd ar gael i wneud gwaith pwyllgor mewn Cynulliad o 60 Aelod, sy'n golygu bod cyfran sylweddol o Aelodau yn gorfod gwasanaethu ar ddau bwyllgor neu ragor. Mae hyn yn cyfyngu ar allu Aelodau i ganolbwyntio'n effeithiol ar waith pob pwyllgor.

---

2

**Yr hyn y mae'r Cynulliad yn ei wneud**: dywedodd y Panel fod rôl a phwerau'r Cynulliad wedi cynyddu'n sylweddol ers 1999. Daeth i'r casgliad fod y pwysau ar y Cynulliad yn debygol o barhau i gynyddu yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd, y symud i fodel o ddatganoli sy'n seiliedig ar gadw pwerau, a datganoli pwerau dros drethiant a benthyca.

3

**Dulliau amgen o gynyddu capasiti'r Cynulliad**: trafododd y Panel yr amryw ddulliau a roddwyd ar waith gan yr Aelodau, Comisiwn y Cynulliad a Bwrdd Taliadau annibynnol y Cynulliad[10] i wella a chynyddu capasiti Cynulliad o 60 Aelod. Mae dulliau o'r fath wedi cynnwys newid: arferion gwaith a gweithdrefnau; strwythur wythnos waith y Cynulliad; nifer yr wythnosau eistedd bob blwyddyn; trefniadau cynefino, hyfforddi a datblygiad proffesiynol; cynnwys arbenigwyr, y cyhoedd a rhanddeiliaid yn y gwaith craffu; yr adnoddau sydd ar gael i'r pwyllgorau; strwythur system y pwyllgorau; a'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i'r Aelodau.

Daeth y Panel i'r casgliad fod y dulliau hyn, yn unigol a gyda'i gilydd, o bosibl wedi cynyddu capasiti'r sefydliad, ond nad ydynt, yn y pen draw, wedi mynd i'r afael â'r broblem sylfaenol sef nad oes digon o amser i 60 Aelod etholedig ymgymryd â'u swyddogaethau.

4

**Cymaryddion y DU a rhyngwladol**: nid yw'r fath gymariaethau'n hawdd eu gwneud, gan fod y setliadau datganoli yn amrywio'n sylweddol ond daeth y Panel i'r casgliad ei bod yn amlwg bod y Cynulliad yn fach iawn o'i gymharu â'r rhan fwyaf o ddeddfwrfeydd tebyg a'i fod hefyd yn fach o gymharu ag awdurdodau lleol yng Nghymru.

Daeth y Panel Arbenigol i'r casgliad os yw'r Cynulliad i allu ymateb yn effeithiol gydag amser, a dod yn gorff seneddol y mae ei angen ar Gymru wrth iddo ganfod ei draed yn nhirwedd cyfansoddiadol y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, y dylid mynd i'r afael â'r materion capasiti a amlinellir yn ei adroddiad ar unwaith.

[10] Bwrdd annibynnol a sefydlwyd gan ***Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010*** *yw'r* ***Bwrdd Taliadau*** sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, lwfansau a chymorth ariannol arall ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

## Diwygio posibl

Daeth y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i'r casgliad fod y Cynulliad yn rhy fach a bod gormod y bwysau arno. Argymhellir mai'r maint mwyaf priodol ar gyfer y Cynulliad fyddai rhwng 80 a 90 Aelod, ar y sail y byddai cynyddu'r Cynulliad i faint o fewn yr ystod honno yn arwain at fanteision gwerthfawr o ran capasiti'r sefydliad ac y byddai manteision cyfatebol i bobl Cymru hefyd.

Dywedodd y Panel Arbenigol y byddai nifer Aelodau sy'n nes at 90 yn gwneud mwy i gryfhau'r sefydliad a gwella'i allu i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol. Byddai'r manteision yn cynnwys mwy o wahaniaeth ystyrlon yng ngallu llawer o'r Aelodau i arbenigo, a byddai budd yn sgil hynny o ran ansawdd a swm y gwaith craffu a chynrychioli. Byddai ffigur tua’r pegwn uchaf hefyd yn lleihau'r risg y byddai angen ailystyried mater capasiti'r Cynulliad yn y dyfodol, pe byddai cyfrifoldebau'r Cynulliad yn cynyddu fwy fyth.

Daeth y Panel Arbenigol i'r casgliad fod rôl graffu a throsolwg y Cynulliad, os caiff ei chyflawni'n effeithiol, yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl Cymru drwy wella ansawdd deddfwriaeth Cymru, a thrwy ddylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru. Awgrymodd y gallai hyd yn oed welliannau bach yn y broses o graffu ar wariant a pholisi Llywodraeth Cymru ddod â budd sylweddol i drethdalwyr. Yn ôl Comisiwn Silk: “Mae craffu da yn golygu deddfwriaeth dda, ac mae deddfwriaeth dda yn talu amdani ei hun.”[11]

Fodd bynnag, argymhellodd y Panel fod yn rhaid i'r Cynulliad ffrwyno'i hun yn y ffordd y mae'n gwneud defnydd o unrhyw gynnydd ym maint y sefydliad. Er enghraifft dylai ystyried yn ofalus nifer a maint y pwyllgorau, penodi deiliaid swyddi, ac uchafswm maint Llywodraeth Cymru. Diben hyn yw sicrhau bod y manteision posibl ar gyfer ansawdd a swm y gwaith craffu yn cael eu gwireddu a bod costau ychwanegol yn cael eu cadw i'r lleiafswm eithaf.

Serch hynny, byddai cynyddu maint y Cynulliad yn arwain at gostau ychwanegol. Mae'r amcangyfrifon cychwynnol a baratowyd gan Gomisiwn y Cynulliad i lywio gwaith y Panel yn Tabl 1. Mae rhan fwyaf y costau rheolaidd a nodir yn deillio o gostau a bennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol. Mae'r costau hyn yn cael eu gyrru'n uniongyrchol gan nifer yr Aelodau, er enghraifft, cyflogau'r Aelodau a'u staff

[11] Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, ***Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru***, 2014

cymorth, y lwfansau sydd ar gael i'r Aelodau, a'r gost o gynnal y swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol.

***Tabl 1 Amcangyfrif o gostau blynyddol rheolaidd 20 neu 30 Aelod ychwanegol***[12]

| | | £000 |
|---|---|---|
| | 20 Aelod ychwanegol | 30 Aelod ychwanegol |
| Costau blynyddol rheolaidd craidd | 5,970 | 8,860 |
| Costau blynyddol rheolaidd newidiol | 650 | 780 |
| Cyfanswm y costau blynyddol rheolaidd | **6,620** | **9,640** |

Mae'r amcangyfrif cychwynnol o'r costau blynyddol rheolaidd ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynigion y Panel o ran nifer yr Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad yn amrywio, felly, o ryw £6.6 miliwn i £9.6 miliwn y flwyddyn. Yn 2017–18, cyllideb flynyddol y Comisiwn oedd £53.7 miliwn. Mae'r costau blynyddol rheolaidd ychwanegol yn y tabl yn cynrychioli 12 y cant ac 18 y cant o'r gyllideb honno yn y drefn honno. Yn ogystal, byddai rhai costau untro, yn gysylltiedig, er enghraifft, ag addasu'r Siambr a swyddfeydd yr Aelodau. Mae'r amcangyfrifon cychwynnol yn awgrymu y byddai'r rhain oddeutu £2.4 miliwn ar gyfer 20 Aelod ychwanegol a £3.3 miliwn ar gyfer 30 Aelod ychwanegol. I roi'r costau hyn yn eu cyd-destun, mae'r amcangyfrif o'r costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn gyntaf (gan gynnwys y costau untro a'r costau blynyddol rheolaidd) ar gyfer 30 Aelod ychwanegol — £12.9 miliwn — yn 0.08 y cant o gyfanswm grant bloc Cymru.[13]

---

[12] Mae'r costau craidd blynyddol rheolaidd yn cynnwys yr hyn y gellir eu nodi'n weddol bendant ar gyfer gwahanol niferoedd o Aelodau, ac nad ydynt, gan mwyaf, yn dibynnu'n uniongyrchol ar ofynion busnes ffurfiol y Cynulliad. Er enghraifft, cyflogau, cyfraniadau pensiwn a chyfraniadau Yswiriant Gwladol yr Aelodau a'u staff cymorth, cymorth ariannol a lwfansau a ddarperir i'r Aelodau, ac offer TGCh. Mae'r costau blynyddol rheolaidd newidiol yn adlewyrchu costau mwy disgresiynol, a fydd yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau i'w gwneud gan y Cynulliad, y Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Cynulliad yn y dyfodol am arferion gwaith, blaenoriaethau a threfniadaeth busnes ffurfiol y Cynulliad. Er enghraifft, cost y gwasanaethau cymorth seneddol a ddarperir i'r Aelodau gan Gomisiwn y Cynulliad. Ceir dadansoddiad manylach o'r costau a'r tybiaethau sy'n sail iddynt yn Atodiad F i'r ddogfen ***Senedd sy'n Gweithio i Gymru***.

[13] Grant bloc Cymru yw'r swm o arian y mae Senedd y DU yn ei roi i Gymru. Mae'n cynnwys cyllideb Llywodraeth Cymru (tua £15 biliwn y flwyddyn), yn ogystal â chyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (tua £54 miliwn y flwyddyn). Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad bob blwyddyn ac yn eu cymeradwyo.

Mae'r amcangyfrifon o gostau Aelodau ychwanegol, o reidrwydd, yn seiliedig ar y gwasanaethau a'r system o gymorth ariannol sydd ar waith ar hyn o bryd. Argymhellodd y Panel Arbenigol fod y Bwrdd Taliadau a Chomisiwn y Cynulliad yn ystyried sut y dylai cyfanswm y lefelau presennol o staffio, gwasanaethau a'r adnoddau ariannol a ddarperir i gynorthwyo'r Aelodau gael ei addasu pe byddai'r Cynulliad yn fwy o faint, fel bod y gost o weithredu argymhellion y Panel yn cael ei chadw i'r lleiafswm eithaf.

Mae'r Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn. Os bydd maint y Cynulliad yn cynyddu, maent wedi ymrwymo i sicrhau bod y costau cysylltiedig yn cael eu cadw i'r lleiafswm eithaf.

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 1.** Mae'r Panel Arbenigol wedi dod i'r casgliad bod angen rhwng 80 a 90 Aelod ar y Cynulliad i gyflawni ei rôl yn effeithiol.

Ydych chi'n cytuno?

Rhowch resymau am eich ateb.

**Cwestiwn 2.** A fyddai newid nifer yr Aelodau Cynulliad yn achosi i) costau, neu ii) manteision, i chi neu i’ch sefydliad? Os felly, beth fyddai'r costau neu'r manteision hynny?

# 2. Sut y dylid ethol Aelodau'r Cynulliad?

## Y cefndir

Ers sefydlu'r Cynulliad yn 1999, mae'r 60 Aelod Cynulliad wedi cael eu hethol ar sail system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg a elwir hefyd yn System Aelodau Ychwanegol. Mae'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg yn fath ar gynrychiolaeth gyfrannol. O dan y system hon, gall Aelodau gael eu hethol i'r Cynulliad mewn dwy ffordd wahanol:

- Mae 40 Aelod Cynulliad yn cael eu hethol trwy ennill y mwyaf o bleidleisiau ar gyfer ymgeiswyr unigol (a elwir yn ddull y Cyntaf i'r Felin) i gynrychioli etholaethau.
- Mae 20 Aelod Cynulliad yn cael eu hethol ar sail Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Gaeedig i gynrychioli pum rhanbarth. Mae rhestrau caeedig yn golygu bod pleidleiswyr yn bwrw pleidlais i'r blaid a ffefrir ganddynt, ond nad oes ganddynt ddylanwad dros drefn yr ymgeiswyr ar y rhestrau y mae'r pleidiau gwleidyddol yn eu cynnig.[14]

Mae gan bawb ddwy bleidlais, un ar gyfer eu dewis o ymgeisydd etholaethol a phleidlais ranbarthol ar gyfer y blaid wleidyddol a ddewisir ganddynt. Gellir bwrw'r ddwy bleidlais ar gyfer yr un blaid wleidyddol, neu gellir pleidleisio dros bleidiau gwleidyddol gwahanol ar gyfer etholaeth a rhanbarth yn ôl y dewis.

Y pleidleisiau etholaethol sy'n cael eu cyfrif gyntaf. Yr ymgeisydd a gafodd y mwyaf o bleidleisiau yn yr etholaeth sy'n ennill yr etholaeth honno. Yna caiff y pleidleisiau rhanbarthol eu cyfrif. Defnyddir fformiwla etholiadol i ddyrannu'r pedair sedd ranbarthol ym mhob rhanbarth o'r Cynulliad i bleidiau gwleidyddol. Mae sawl fformiwla etholiadol wahanol – yr un a ddefnyddir yng Nghymru ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yw fformiwla D'Hondt. Mae'r fformiwla hon yn cymryd i ystyriaeth nifer y pleidleisiau a'r seddau a enillwyd gan bob plaid yn y rhanbarth ar bob cam o'r broses gyfrif.[15]

Pe byddai maint y Cynulliad yn newid, byddai'n rhaid newid y modd y caiff yr Aelodau eu hethol. Y rheswm am hyn yw bod y system etholiadol bresennol wedi'i

[14] Caiff ymgeiswyr annibynnol ymgeisio am seddau rhanbarthol. I bob pwrpas, maent yn cael eu trin fel rhestrau sy'n cynnwys un ymgeisydd.

[15] I gael rhagor o wybodaeth am y modd y caiff Aelodau presennol y Cynulliad eu hethol, darllenwch bennod 11 o ***Senedd sy'n Gweithio i Gymru***.

chynllunio'n benodol i ethol 60 Aelod. Daeth y Panel Arbenigol i'r casgliad bod angen rhwng 80 a 90 Aelod ar y Cynulliad. Yn sgil hynny enwodd dair system etholiadol a allai weithredu'n effeithiol yng Nghymru o etholiad 2021 ymlaen i ethol Cynulliad o'r maint hwnnw.

Mae gan bob system etholiadol ei chryfderau a'i gwendidau. Rhestrodd y Panel egwyddorion allweddol, a oedd, gyda'i gilydd, yn fframwaith cadarn i werthuso systemau etholiadol yn ddiduedd, ac mewn modd sy'n wleidyddol niwtral. Mae'r egwyddorion a ystyrir bwysicaf yn dibynnu ar yr hyn y rhoddir y pwys mwyaf arno mewn system etholiadol.

Egwyddorion y Panel Arbenigol oedd:

- Atebolrwydd ac effeithiolrwydd y llywodraeth: dylai'r system annog llywodraeth effeithiol, atebol a sefydlog, boed ganddi fwyafrif neu boed yn glymblaid.
- Cyfranoldeb: ni ddylai'r system gael cynrychiolaeth sy'n llai cyfrannol na threfniadau etholiadol presennol y Cynulliad, a dylai, o ddewis, fod yn fwy cyfrannol.
- Atebolrwydd Aelodau: dylai'r system sicrhau bod yr holl Aelodau yn amlwg atebol i'r etholwyr a sicrhau y gallant gynrychioli'r etholwyr yn effeithiol ac yn briodol er lles y wlad.
- Statws cyfwerth: cyn belled ag y bo modd, dylai'r system sicrhau y caiff yr holl Aelodau eu hethol â mandad lled gyfwerth, sy'n rhoi statws cyfartal iddynt.
- Amrywiaeth: dylai'r system annog a chefnogi canlyniad lle yr etholir cynrychiolwyr sy’n adlewyrchu'r boblogaeth yn fras.
- Rhoi dewis i bleidleiswyr: lle bo hynny'n bosibl o fewn dyluniad y system, dylai ganiatáu i bleidleiswyr ddethol neu ddangos eu dewis o ran ymgeiswyr unigol.
- Mandad cyfwerth: dylai'r system adlewyrchu'r egwyddor gyffredinol wrth wraidd dyluniad systemau pleidleisio drwy sicrhau bod pob pleidlais tua'r un gwerth, a seddau'n cael eu dosrannu gan ystyried niferoedd yr etholwyr a daearyddiaeth.

- **Ffiniau**: dylai'r system fod yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol wedi'u diffinio'n glir, sy'n golygu rhywbeth i bobl ac sy'n ystyried cymunedau presennol, ynghyd â'r ffiniau etholiadol a gweinyddol presennol.

- **Symlrwydd**: dylai'r system gael ei dylunio gan roi sylw i symlrwydd ac eglurder i bleidleiswyr.

- **Cynaliadwyedd a'r gallu i addasu**: dylai fod modd gweithredu'r system erbyn 2021, ac ymateb ac addasu o ganlyniad i newid yn y tueddiadau gwleidyddol, demograffig a deddfwriaethol, ynghyd â'r anghenion newydd a'r amgylchiadau newydd a ddaw i'r amlwg, heb fod angen rhagor o newid sylfaenol yn y dyfodol agos.

## Diwygiadau posibl

Drwy bwyso a mesur gwahanol systemau etholiadol, gwrthododd y Panel Arbenigol y systemau hynny nad oedd yn hyderus y gallent fodloni ei egwyddorion yn ddigonol. O ganlyniad, hoeliodd ei sylw ar dair system etholiadol bosibl a allai, yn ei farn ef, weithredu'n effeithiol i ethol Cynulliad o 80 Aelod fan lleiaf yn 2021:[16]

### Y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy:

Dyma'r opsiwn a ffefrir gan y Panel. Byddai'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn ddigon hyblyg i ethol Cynulliad o rhwng 80 a 90 Aelod ar sail etholaethau aml-aelod. Byddai angen i bleidleiswyr restru ymgeiswyr unigol yn y drefn a ffefrir ganddynt. Wrth i ymgeiswyr gael eu hethol neu eu dileu, caiff ail bleidlais y bobl a bleidleisiodd drostynt ei throsglwyddo yn unol â dymuniadau'r pleidleiswyr. Mae hyn yn gyfle iddynt fynegi eu dewis o ran y sawl y maent am iddynt eu cynrychioli. Er enghraifft, efallai y bydd eu dewis cyntaf a'u hail ddewis yn cynrychioli gwahanol bleidiau gwleidyddol.

*Asesu'r system ar sail egwyddorion y Panel Arbenigol:* Byddai'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn gwneud y mwyaf o bŵer pleidleiswyr i ddewis, ac os bydd Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddi â'i chynigion i ganiatáu i awdurdodau lleol Cymru fabwysiadu'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, gallai'r system hon fod yn symlach i bleidleiswyr. Gallai lefel yr atebolrwydd uniongyrchol i bleidleiswyr arwain at ffocws anghymesur ar rolau cynrychiadol yr Aelodau. Mae gwaith

---

[16] I gael rhagor o wybodaeth am bob system etholiadol a'r modd y mae'n gweithredu, darllenwch bennod 13 o ***Senedd sy'n Gweithio i Gymru***. Mae manylion am y gwahanol systemau etholiadol a fodelwyd gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd, ar ran y Panel Arbenigol i'w gweld yn Atodiad H i'r adroddiad hwnnw.

modelu'r Panel yn dangos cyfranoldeb eang, er y byddai'r model etholaethol a ddefnyddir yn effeithio ar hyn. Byddai'r un mandad gan yr holl Aelodau, sy'n golygu y byddai'r pleidleisiau tua'r un gwerth. Gellid cynnwys rhai mesurau i hybu amrywiaeth yn y system, er na fyddai'r rhain mor gryf â'r rhai y gellid eu hymgorffori mewn system Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr Hyblyg (gweler isod).

Defnyddir y system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn Iwerddon, Gogledd Iwerddon ac Awstralia ac yn etholiadau lleol yr Alban. Mae Llywodraeth Cymru wedi argymell ei bod yn cael ei defnyddio gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

### Cynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestr hyblyg:

Dywedodd y Panel y gallai'r system hon fod yn ddewis amgen dilys. Byddai'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr Hyblyg yn ddigon hyblyg i ethol Cynulliad o rhwng 80 a 90 Aelod ar sail etholaethau aml-aelod. Byddai angen i bleidleiswyr fwrw'u pleidlais i naill ai blaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol. Byddai seddau yn cael eu dyrannu i bleidiau yn seiliedig ar gyfanswm y pleidleisiau a gafodd y blaid neu'r ymgeiswyr sy'n cynrychioli'r blaid. Y drefn a ffefrir gan y blaid ar y rhestr o ymgeiswyr, a nifer y pleidleisiau unigol a gafodd yr ymgeiswyr, sy'n penderfynu pa ymgeiswyr a gaiff y seddau a enillwyd gan blaid.

*Asesu'r system ar sail egwyddorion y Panel Arbenigol*: Byddai system Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr Hyblyg yn sicrhau mwy o gydbwysedd na'r system etholiadol bresennol rhwng y dewis a roddir i bleidleiswyr a dylanwad plaid wleidyddol dros y sawl a gaiff ei ethol. Byddai graddfa'r dewis a roddir i bleidleiswyr yn dibynnu ar y lefel y caiff y trothwy ar gyfer pleidleisiau personol yr ymgeiswyr ei bennu (hynny yw, y gyfran o bleidleisiau personol sydd ei hangen ar bob ymgeisydd i symud i fyny rhestr y blaid). Mae gwaith modelu'r Panel yn dangos cyfranoldeb eang, er y byddai'r model etholaethol a ddefnyddir yn effeithio ar hyn. Byddai gan yr holl Aelodau yr un mandad, a gellid cynnwys mesurau yn y system i annog amrywiaeth. Mae'r system yn anghyfarwydd yn achos etholiadau'r Cynulliad, ond mae'n debyg i'r un a ddefnyddir i ethol Aelodau Cymru o Senedd Ewrop.

Defnyddir amrywiadau o'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr Hyblyg yn eang yn Ewrop yng Ngwlad Belg, Sweden, Denmarc a Gweriniaeth Tsiec, a sawl gwlad arall.

### System Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg (a elwir hefyd yn System Aelodau Ychwanegol):

Dywedodd y Panel mai hwn oedd yr opsiwn status quo sy'n cynnig y lleiaf o newid. Mae'n addasu system etholiadol bresennol y Cynulliad yn y ffordd leiaf bosibl, ond dywedodd y Panel nad hwn fyddai'r opsiwn a ffefrir ganddo. Gofynnir i bleidleiswyr fwrw pleidlais dros ymgeisydd unigol a gaiff ei ethol drwy'r system Cyntaf i'r Felin i gynrychioli eu hetholaeth, a phleidlais dros blaid wleidyddol y caiff ei chynrychiolwyr eu hethol drwy'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr Gaeedig i gynrychioli eu rhanbarth. Byddai'r seddau rhanbarthol a gaiff eu dyrannu i bleidiau gwleidyddol yn seiliedig ar ddefnyddio fformiwla etholiadol ar sail cyfanswm y pleidleisiau a nifer y seddau a enillwyd. Byddai ymgeiswyr yn cael y seddau a enillwyd gan y blaid yn y drefn yr oedd y blaid wedi rhestru ymgeiswyr ar y papur pleidleisio.

*Asesu'r system ar sail egwyddorion y Panel Arbenigol*: Mae'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg yn gyfarwydd i bleidleiswyr yng Nghymru. Mae canfyddiad mai'r elfen Cyntaf i'r Felin fyddai'n cyflawni gryfaf ar sail atebolrwydd Aelodau a chynnig dewis i bleidleiswyr, ond ar y llaw arall mae canfyddiad bod yr elfen Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr Gaeedig yn wan yn hyn o beth. Mae'n gyfle i bleidiau ddefnyddio'r elfen restr i flaenoriaethu ymgeiswyr; gallai hyn annog amrywiaeth o ran cynrychiolaeth. Byddai'r egwyddor na ddylid cael mwy o seddau rhanbarthol na seddau etholaethol yn cyfyngu'r Cynulliad i uchafswm o 80 Aelod yn 2021. Efallai na fydd y ddau lwybr gwahanol a gynigir gan y system hon yn sicrhau statws cyfwerth i bob Aelod.

Defnyddir y system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg yn yr Alban, yr Almaen a Seland Newydd.

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 3.** Mae'r Panel Arbenigol wedi amlinellu tair system etholiadol bosibl a allai weithredu'n effeithiol yng Nghymru i ethol Cynulliad, sydd, fan lleiaf, yn cynnwys 80 Aelod:

- Y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy
- Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr Hyblyg
- Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg (a elwir hefyd yn System Aelodau Ychwanegol)

Pa un o'r systemau hyn fyddai fwyaf priodol ar gyfer ethol Aelodau'r Cynulliad a pham?

Rhowch resymau am eich ateb.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r Panel Arbenigol o'r farn y byddai Cynulliad mwy amrywiol yn gwella'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithredu a'r modd y mae'n cynrychioli pobl Cymru. Mae'n cyfeirio'n benodol at enw da'r Cynulliad am ei gynrychiolaeth o ran y rhywiau, ac yn ystyried amryw ddulliau y gellid eu defnyddio i ddiogelu'r cynnydd a wnaed gan y pleidiau gwleidyddol yng Nghymru hyd yma. Argymhellodd y Panel ymyriadau deddfwriaethol megis cwotâu rhywedd a darpariaethau i sicrhau bod mwy o wybodaeth ddi-enw am amrywiaeth ymgeiswyr ar gael, a rhoi cyfle i ymgeiswyr gynnig eu hunain i gael eu hethol ar sail trefniadau rhannu swyddi.[17]

Pa system etholiadol bynnag a ddewisir, argymhellodd y Panel Arbenigol y dylai fod yn ofynnol bod gan y pleidiau nifer gyfartal o ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd ym mhob rhanbarth neu etholaeth aml-aelod. Pan fo'r pleidiau yn cynnig rhestrau o ymgeiswyr, argymhellodd y Panel y dylai'r rhestrau hynny gynnwys menywod a dynion am yn ail (a elwir weithiau'n 'am-yn-eilio'). Er nad yw'n argymell cwotâu ffurfiol mewn perthynas â'r nodweddion amrywiaeth eraill, er enghraifft oedran, ethnigrwydd ac anabledd, galwodd y Panel ar y pleidiau gwleidyddol i roi sylw i'r agweddau ehangach hyn ar amrywiaeth wrth ddewis eu

[17] I gael rhagor o wybodaeth am argymhellion y Panel o ran amrywiaeth a chydraddoldeb, darllenwch bennod 12 o ***Senedd sy'n Gweithio i Gymru***.

hymgeiswyr er mwyn helpu i gefnogi ac annog Cynulliad sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 4.** Ydych chi'n cytuno ag argymhelliad y Panel Arbenigol y dylid, wrth newid y system etholiadol, fanteisio ar y cyfle i roi anogaeth i ethol Cynulliad sy'n adlewyrchu'n well natur amrywiol cymdeithas yng Nghymru?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 5.** Os ydych chi'n cytuno â chwestiwn 4, ydych chi'n credu y dylid gwneud hyn trwy gyfrwng deddfwriaeth, fel cwotâu rhywedd ffurfiol, neu drwy gyfrwng dulliau llai ffurfiol, fel mesurau gwirfoddol gan bleidiau gwleidyddol?

Rhowch resymau am eich ateb.

Mae ethos gweithio mewn modd sy'n ystyriol o deuluoedd yn rhan o ddiwylliant a gweithdrefnau'r Cynulliad. Serch hynny, fel yn achos deddfwrfeydd eraill, nid yw'r elfennau busnes ffurfiol o rolau'r Aelodau yn cynnig cymaint o gyfle i fod yn hyblyg. Gallai hyn fod yn rhwystr anghymesur i rai a allai fel arall fod yn awyddus i sefyll etholiad. Argymhellodd y Panel Arbenigol mai un ffordd i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yw caniatáu i bobl sefyll i'w hethol ar sail trefniadau rhannu swyddi.

Dadleuodd y Panel Arbenigol y gallai caniatáu rhannu swyddi ei gwneud hi'n haws i bobl ag anableddau neu gyfrifoldebau gofalu sefyll etholiad, neu ganiatáu i ddarpar Aelodau gynnal eu sgiliau proffesiynol a'u hymrwymiadau drwy weithio'n rhan-amser o fewn trefniant rhannu swydd. Byddai angen i ymgeiswyr sy'n dymuno sefyll etholiad fel hyn egluro'n glir i bleidleiswyr sut y byddai'r trefniant rhannu swydd yn gweithio. Felly, y pleidleiswyr eu hunain fyddai'n penderfynu yn y pen draw a gaiff unrhyw Aelodau sy'n rhannu swydd eu hethol.

Byddai angen newid y gyfraith sy'n ymwneud ag etholiadau cyn y caiff ymgeiswyr sefyll i'w hethol ar sail trefniadau rhannu swydd. Byddai angen newid gweithdrefnau'r Cynulliad hefyd a *Phenderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r*

*Aelodau* y Bwrdd Taliadau.[18] Mae'r Panel yn awgrymu mai'r egwyddorion wrth wraidd trefniadau o'r fath yw y dylai'r rhai sy'n rhannu'r swydd gael eu trin fel un person, ac na ddylai rhannu'r swydd beidio ag achosi unrhyw gostau ychwanegol sy'n uwch na chostau un Aelod Cynulliad.

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 6.** Ydych chi'n cytuno y dylai pobl fod yn gallu sefyll i gael eu hethol i'r Cynulliad ar sail rhannu swydd?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 7.** Beth, os os gwbl, fyddai'r manteision neu'r risgiau a fyddai'n deillio o ganiatáu i bobl sefyll etholiad ar sail trefniadau rhannu swydd, yn eich barn chi?

[18] Mae'r ***Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau*** y Bwrdd Taliadau annibynnol yn nodi'r tâl a'r cymorth ariannol arall sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad.

## Etholaethau a rhanbarthau etholiadol

Caiff Aelodau Cynulliad eu hethol i gynrychioli etholaethau neu ranbarthau etholiadol. Gellid parhau i ddefnyddio ffiniau etholaethol a rhanbarthol presennol y Cynulliad ar gyfer system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg.

Os cyflwynir naill ai'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy neu'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr Hyblyg, byddai angen creu etholaethau aml-aelod newydd. Naill ai byddai nifer yr Aelodau a etholir gan bob etholaeth aml-aelod yn cael ei gyfrifo ar sail nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth, neu gellid cymhwyso pwysoliad yn seiliedig ar, er enghraifft, y pellter o Fae Caerdydd.

Diystyrodd y Panel Arbenigol adolygiad llawn o'r ffiniau oherwydd nad oedd digon o amser ar gael cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021. Yn ogystal, gwrthododd y 29 etholaeth a gynigiwyd ar gyfer San Steffan yn adolygiad y Comisiwn Ffiniau i Gymru,[19] ar y sail na ddylai ffiniau'r Cynulliad gael eu pennu gan ffactorau sydd â braidd ddim cysylltiad â Chymru. Felly, ystyriodd y Panel pa ardaloedd etholiadol neu weinyddol presennol y gellid eu defnyddio fel meini adeiladu ar gyfer etholaethau'r Cynulliad o 2021 ymlaen. Nododd ddwy set wahanol o etholaethau aml-aelod (y gellid eu defnyddio i ethol Aelodau ar sail naill ai system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy neu'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr Hyblyg):

- 20 etholaeth yn seiliedig ar baru 40 etholaeth bresennol y Cynulliad: dyma'r opsiwn a ffefrir gan y Panel i ethol Cynulliad yn nes at begwn uchaf yr ystod a argymhellir ganddo ar gyfer maint y Cynulliad. Maintais hyn yw y byddai tua'r un nifer o bleidleiswyr ym mhob etholaeth ac y byddai tua'r un nifer o Aelodau'n cael eu hethol i bob ardal etholiadol. Serch hynny, byddai angen gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer adolygu'r ffiniau.

- 17 etholaeth yn seiliedig ar y 22 ardal awdurdod lleol presennol: opsiwn arall dilys y Panel, a allai fod yn briodol i Gynulliad sy'n nes at ganol yr ystod maint a argymhellir gan y Panel. Manteision hyn yw na fyddai angen gwneud trefniadau adolygu ffiniau ar wahân i'r hyn sydd eisoes ar waith ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol. Byddai hefyd yn gyfarwydd i bleidleiswyr. Y cyfyngiad yw y byddai maint y boblogaeth yn amrywio gan achosi amrywiad yn nifer yr Aelodau a etholir ym mhob ardal.

[19] Comisiwn Ffiniau i Gymru, ***Adolygiad o Etholaethau Seneddol 2018: Adroddiad Cynigion Diwygiedig***, 17 Hydref 2017

Mae mapiau sy'n dangos y ffiniau etholaethol arfaethedig ar gyfer pob un o'r modelau hyn i'w cael yn Atodiad 3 i'r ddogfen hon. Ceir rhagor o fanylion am y modelau ym mhennod 14 o adroddiad y Panel.[20]

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 8.** Pe byddai'r Cynulliad yn mabwysiadu naill ai'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy neu'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr Hyblyg, a ddylai Aelodau'r Cynulliad gael eu hethol ar sail:

- 20 etholaeth sy'n seiliedig ar baru 40 etholaeth bresennol y Cynulliad
- 17 etholaeth sy'n seiliedig ar 22 ardal awdurdodau lleol presennol Cymru?
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 9.** A fyddai newid system etholiadol y Cynulliad yn achosi i) costau neu ii) fanteision i chi neu i'ch sefydliad? Os felly, beth fyddai'r costau neu'r manteision hynny?

[20] I gael rhagor o wybodaeth am y modelau etholaethol a gynigir gan y Panel Arbenigol, darllenwch bennod 14 o ***Senedd sy'n Gweithio i Gymru***.

# 3. Pwy ddylai gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?

## Y cefndir

Gelwir yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn etholfraint y Cynulliad. Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith yn caniatáu i'r un bobl bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ag sy'n pleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol. Byddai unrhyw newidiadau i'r gyfraith o ran pwy a gaiff bleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol hefyd yn gymwys i etholfraint y Cynulliad.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu newid y gyfraith o ran pwy sydd â'r hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Gan gydnabod mai'r un yw'r etholfraint ar gyfer etholiadau lleol ac etholiadau'r Cynulliad ar hyn o bryd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus:

> "Hyderaf y byddwn yn gallu symud ymlaen i fod ag etholfraint gyffredin [...] ar gyfer ein hetholiadau cenedlaethol i'n Senedd a hefyd ein hetholiadau i lywodraeth leol yn y dyfodol."[21]

Mae'r Panel Arbenigol yn awgrymu, fel mater o egwyddor, y dylai'r Cynulliad benderfynu ar ei etholfraint ei hun drwy gyfrwng deddfwriaeth.

Felly mae'r cwestiwn yn codi: pwy ddylai gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad? Dechreubwynt Comisiwn y Cynulliad yw y dylai'r rhai sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ar hyn o bryd barhau i allu gwneud hynny. Mae'r Comisiwn hefyd yn cydnabod, pe byddai'r etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yr un peth, bod manteision gweinyddol i hynny ac y gallai fod yn symlach i bleidleiswyr. Cyfeiriodd at y ffaith bod yr etholfraint ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, ill dwy, yn wahanol.

[21] Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, **Datganiad llafar**, 30 Ionawr 2018

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 10.** I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad a ganlyn:

Dylai'r un bobl gael caniatâd i bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn etholiadau llywodraeth leol Cymru.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 11.** Beth fyddai'r goblygiadau pe bai gwahaniaethau rhwng y sawl a allai bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad a'r sawl a allai bleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol Cymru?

## Ar ba oed y dylid cael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?

Arweiniodd Llywydd y Pedwerydd Cynulliad, y Fonesig Rosemary Butler, ymgynghoriad ynghylch a ddylai pobl ifanc 16 ac 17 oed gael yr hawl i bleidleisio. Er na chafodd ei gynllunio i fod yn ymarfer ystadegol cadarn o ran ei fethodoleg, roedd dros 10,000 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. O'r rhain, roedd 53 y cant o blaid gostwng yr oedran pleidleisio, roedd 29 y cant yn erbyn, ac roedd 18 y cant yn ansicr. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn i bobl ifanc a fyddent yn pleidleisio pe baent yn gymwys (dywedodd 58 y cant y byddent a dywedodd 23 y cant na fyddent).[22]

Gofynnwyd i'r Panel Arbenigol wneud argymhellion ar yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.[23] Bu'n ystyried:

- Cyd-destun Cymru, y DU ac yn rhyngwladol: yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn deddfu i ganiatáu pobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol o 2022 ymlaen. Gostyngwyd yr oedran pleidleisio yn yr Alban ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban a llywodraeth leol i 16 oed yn 2016 a 2017, yn y drefn honno, ac mae'r pwysau i ostwng yr oedran pleidleisio ledled y DU yn parhau i gynyddu.
- Trothwyon presennol: cydnabu'r Panel fod llawer o'r drafodaeth gyhoeddus yn canolbwyntio ar ba un a fyddai oedran pleidleisio is yn fwy addas neu'n llai addas wrth ystyried yr oedrannau y caiff cyfrifoldebau a hawliau eraill eu cyflwyno. Daeth i'r casgliad fod diffyg cydlyniad a chysondeb yn y trothwyon oedran sy'n gymwys yn y DU ac yn rhyngwladol, ac nad oedd cymharu'r oedran pryd y bydd person ifanc yn ysgwyddo cyfrifoldebau a hawliau yn dangos ffordd glir ymlaen.
- Cyfranogiad gwleidyddol: daeth y Panel i'r casgliad fod rhesymau damcaniaethol da dros ddisgwyl y byddai sefydlu'r arfer o bleidleisio yn ifanc yn arwain at ragor yn bwrw eu pleidlais yn y tymor hir, er enghraifft pan fo nifer o bobl ifanc yn dal i fyw gartref neu o fewn rhwydweithiau

[22] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***A ddylid gostwng yr oedran pleidleisio i 16? Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad 'Pleidleisio@16?' y Llywydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru***, Gorffennaf 2015

[23] I gael rhagor o wybodaeth am drafodaethau'r Panel ar y materion hyn, darllenwch bennod 15 o ***Senedd sy'n Gweithio i Gymru***.

sefydlog. Mae tystiolaeth hefyd y gall gostwng yr oedran pleidleisio beri, yn y tymor byr, i ragor o bobl ifanc rhwng 16 ac 17 oed nag o bobl rhwng 18 a 21 oed fwrw pleidlais, pan gaiff hynny ei gefnogi gan addysg briodol ac effeithiol o ran dinasyddiaeth ac mewn perthynas â rhoi rhagor o amlygrwydd i etholiadau.

- Gwybodaeth wleidyddol, aeddfedrwydd ac annibyniaeth barn: mae'r dystiolaeth yn amrywio, ond daeth y Panel i'r casgliad fod astudiaethau a gynhaliwyd mewn mannau lle caiff pobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio yn dangos braidd ddim gwahaniaeth rhwng eu dealltwriaeth hwy a dealltwriaeth pleidleiswyr a oedd ychydig yn hŷn.  Canfu ymchwil gan y Comisiwn Etholiadol yn sgil etholiadau lleol 2017 yn yr Alban, fod pobl ifanc 16 ac 17 oed wedi ei chael yn haws cael gafael ar wybodaeth am sut i fwrw eu pleidlais na phobl ifanc rhwng 18 a 21 oed, a'u bod yn llai tebygol o'i chael yn anodd llenwi eu papur pleidleisio.

- Barn y cyhoedd: daeth y Panel i'r casgliad fod polau ac arolygon yn y DU o farn y cyhoedd yn dangos yn gyson mai cyfyngedig yw'r gefnogaeth i ostwng yr oedran pleidleisio. Dywedodd fod proffil y mater yng Nghymru yn debygol o godi yn sgil cynigion Llywodraeth Cymru a thrwy'r ymgynghoriad hwn, ac awgrymodd nad yw'r mater wedi cael llawer o sylw ymhlith y cyhoedd hyd yma. Dywedodd y Panel fod yr ymatebion a gafodd gan sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc, er nad ydynt, o reidrwydd, yn cynrychioli pob person ifanc, yn awgrymu fod cefnogaeth ymhlith pobl ifanc i ostwng yr oedran pleidleisio.

Daeth y Panel Arbenigol i'r casgliad y byddai gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed yn fodd grymus o godi ymwybyddiaeth wleidyddol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth ymysg pobl ifanc. Argymhellodd hefyd, i sicrhau y caiff pobl ifanc eu hannog a'u cefnogi i arfer eu hawl i bleidleisio, y dylai unrhyw ostyngiad yn yr oedran pleidleisio gael ei wneud law yn llaw ag addysg briodol, effeithiol ac amhleidiol o ran gwleidyddiaeth a dinasyddiaeth.

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 12.** Ar ba oed y dylid cael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?

- 16
- 18
- Ddim yn gwybod

Soniodd y Comisiwn Etholiadol wrth y Panel Arbenigol am rai o'r materion y byddai angen eu hystyried pe byddai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng, er enghraifft costau, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, gweinyddu'r gofrestr etholiadol a hyfforddiant. Daeth i'r casgliad mai'r brif ystyriaeth oedd y dylai unrhyw newid gael ei wneud mewn da bryd cyn yr etholiad perthnasol. Hefyd, dywedodd y Panel Arbenigol pe byddai Llywodraeth Cymru yn deddfu i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i 16 oed o 2022 ymlaen, y byddai hynny'n anghyson, ac yn creu materion gweinyddol ychwanegol, pe na byddai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng hefyd ar gyfer etholiadau'r Cynulliad o 2021 ymlaen.

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 13.** A fyddai gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn achosi i) costau neu ii) manteision i chi neu i’ch sefydliad? Os felly, beth fyddai'r costau neu'r manteision hynny?

**Cwestiwn 14.** A oes unrhyw faterion, manteision neu risgiau eraill yr hoffech i ni eu hystyried mewn perthynas â newid yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad?

Rhowch resymau am eich ateb.

## A ddylai pobl sy'n byw yn gyfreithlon yng Nghymru nad ydynt yn wladolion y DU gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?

Ar hyn o bryd, mae gan ddinasyddion y DU, dinasyddion y Gymanwlad, a dinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE nad ydynt yn y DU hawl i bleidleisio yn etholiadau lleol Cymru ac etholiadau'r Cynulliad.

Nid yw'n glir eto a fydd y telerau y bydd y DU yn cytuno arnynt ar gyfer ymadael â'r UE yn cynnwys bod yr hawliau pleidleisio sydd gan ddinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE heblaw y DU yn parhau fel mater o drefn. Bydd y mater hwn yn rhan o'r trafodaethau sydd ar y gweill rhwng y DU a'r UE. Mae Llywodraeth y DU ac aelod-wladwriaethau eraill yr UE wedi mynegi parodrwydd cryf i ddod i gytundeb sy'n amddiffyn holl hawliau presennol dinasyddion yr UE sydd eisoes yn byw yn y DU. Dyma safbwynt Llywodraeth Cymru hefyd.

Yn ystod hydref 2017, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid estyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol i ddinasyddion yr UE sy'n dod i'r DU ar ôl iddi ymadael â'r UE, ynteu i bawb sy'n byw'n gyfreithlon yng Nghymru.[24] Yn sgil yr ymgynghoriad hwn, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru ei fwriad i ganiatáu i unrhyw un sy'n byw yn gyfreithlon yng Nghymru, ni waeth beth yw ei genedligrwydd, allu cofrestru a phleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol.[25]

[24] Llywodraeth Cymru, ***Diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru***, Gorffennaf 2017

[25] Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, **Datganiad llafar**, 30 Ionawr 2018

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 15.** I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad a ganlyn:

Dylai pob un sy'n byw'n gyfreithlon yng Nghymru, ni waeth beth yw ei genedligrwydd na'i ddinasyddiaeth, gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 16.** A oes unrhyw faterion, risgiau neu fanteision eraill yr hoffech i ni eu hystyried mewn perthynas â newid hawliau pobl sy'n byw yn gyfreithlon yng Nghymru, ond nad ydynt yn wladolion y DU, bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?

Rhowch resymau am eich ateb.

## A ddylai carcharorion gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?

Ar hyn o bryd, gwaherddir y rhan fwyaf o garcharorion yn y DU rhag pleidleisio mewn unrhyw etholiad. Mae hyn yn cynnwys etholiadau'r Cynulliad. Mae hyn er gwaethaf cyfres o ddyfarniadau gan Lys Hawliau Dynol Ewrop fod gwahardd carcharorion yn gyffredinol rhag pleidleisio yn groes i Erthygl 3 o Brotocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Gan gyfeirio at y dyfarniadau hynny, ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i newid y canllawiau i roi'r hawl i garcharorion bleidleisio yn y DU os ydynt ar drwydded dros dro neu dan gyrffyw lle maent yn cael eu cyfyngu i'r cartref.[26] Yn 2010, roedd Llywodraeth Glymblaid y DU wedi amlinellu cynigion i ddeddfu i gyflwyno gwaharddiad cyfyngedig yn lle'r gwaharddiad cyffredinol. Byddai'r gwaharddiad hwnnw wedi bod yn gymwys i garcharorion a gafodd ddedfryd o bedair blynedd neu ragor o garchar. Byddai barnwyr hefyd wedi cael disgresiwn i dynnu'r hawl i bleidleisio oddi wrth garcharorion a ddedfrydwyd i gyfnodau byrrach, pe baent yn credu bod hynny'n beth priodol i'w wneud.[27]

Yn ystod hydref 2017, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid rhoi'r hawl i garcharorion bleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol Cymru.[28] Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwnnw cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei bwriadau polisi ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y cynigion a ganlyn:

- Estyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau lleol i'r oddeutu 3,200 o garcharorion sy'n byw yng Nghymru.
- At ddibenion cofrestru etholiadol, gellid tybio bod carcharorion yn preswylio yn eu cyfeiriad y tu allan i'r carchar, neu gallent ddatgan cysylltiad lleol â chyfeiriadau y mae ganddynt gysylltiadau â nhw, megis cyfeiriadau teulu er enghraifft. Dim ond y rheini y mae ganddynt gyfeiriad perthnasol yng Nghymru fyddai'n cael yr hawl i bleidleisio. Awgrymodd Llywodraeth Cymru y byddai hyn yn well na defnyddio

[26] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ***Datganiad llafar yr Ysgrifennydd Gwladol ar ddedfrydu***, 2 Tachwedd 2017

[27] Swyddfa'r Cabinet, ***Datganiad Ysgrifenedig ar yr Hawl i Bleidleisio***, 20 Rhagfyr 2010

[28] Llywodraeth Cymru, ***Diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru***, Gorffennaf 2017

cyfeiriad y carchar ar gyfer cofrestru, gan y gallai hynny olygu bod carcharorion yn cael gormod o ddylanwad ar etholiadau yn y ward lle saif y carchar.

- Gallai cofrestru fod trwy gyfrwng ffurflen gofrestru arbennig ar gyfer carcharorion dan gollfarn, wedi'i hardystio gan swyddog carchar dynodedig. Dull arall posibl yw caniatáu i garcharorion gadw eu henwau ar y gofrestr adeg eu heuogfarnu, ar y sail y byddent yn cael pleidlais bost yn y sefydliad lle maent yn preswylio, neu drefnu bod pleidlais trwy ddirprwy yn cael ei bwrw ar eu rhan.

Ar 30 Ionawr 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru ei fwriad i newid hawliau carcharorion i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Y cynnig yw estyn yr hawl i bleidleisio i garcharorion y mae eu dyddiad rhyddhau yn disgyn cyn diwedd tymor y cyngor y maent yn pleidleisio ar ei gyfer. Ni fyddai gan garcharorion hawl i adael y carchar i bleidleisio. Yn lle hynny, byddent yn pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy mewn etholiad mewn ardal awdurdod lleol ar sail "cyfeiriad cysylltiedig" yng Nghymru, sef eu cyfeiriad diwethaf fel rheol.[29]

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 17.** I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ganlyn:

17(i) Dylai carcharorion a ryddhawyd ar drwydded dros dro neu dan gyrffyw lle maent yn cael eu cyfyngu i'r cartref gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, yn unol â bwriad Llywodraeth y DU ar gyfer etholiadau'r DU.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

[29] Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, **Datganiad llafar**, 30 Ionawr 2018

17(ii) Dylai carcharorion y mae eu dyddiad rhyddhau yn disgyn cyn diwedd tymor y Cynulliad y maent yn pleidleisio ar ei gyfer, gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 18.** A oes unrhyw faterion, risgiau neu fanteision eraill yr hoffech i ni eu hystyried mewn perthynas â newid hawliau carcharorion i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?

Rhowch resymau am eich ateb.

# 4. Pwy ddylai fod yn gymwys i fod yn Aelod Cynulliad?

## Y cefndir

Nid yw pawb yn gymwys i fod yn Aelod Cynulliad. Mae rhestr o rai o'r meini prawf sy'n anghymhwyso rhywun rhag bod yn Aelod Cynulliad wedi'i chynnwys yn adrannau 16 i 19 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006"). Er enghraifft, ni chaniateir i Aelodau Cynulliad fod yn Aelodau Seneddol ar yr un pryd, nac yn farnwyr, gweision sifil, swyddogion y Cynulliad, na swyddogion cyhoeddus, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae meini prawf eraill sy'n anghymhwyso rhywun rhag bod yn Aelod Cynulliad i'w cael mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth, er enghraifft Gorchmynion Anghymhwyso.

Mae person wedi'i anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad os yw'n dal un o'r swyddi anghymhwyso hyn ar yr adeg y caiff ei enwebu i sefyll i'w ethol yn Aelod Cynulliad. Ar yr adeg y maent yn cael eu henwebu, rhaid i ymgeiswyr wneud datganiad ffurfiol nad ydynt wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad. Os ydynt yn gwybod eu bod yn dal unrhyw un o'r rolau sy'n eu hanghymhwyso, rhaid iddynt beidio â derbyn enwebiad fel ymgeiswyr i fod yn Aelodau Cynulliad hyd nes eu bod wedi ymddiswyddo o'r rolau hynny.

## Diwygiadau posibl

Yn 2014 cynhaliodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad ymchwiliad i'r rheolau ynghylch anghymhwyso Aelodau. Cyhoeddodd adroddiad a oedd yn gwneud argymhellion ar gyfer newid y trefniadau cyfreithiol fel eu bod yn fwy effeithiol:[30]

1. Dylid diwygio Deddf 2006 fel bod person, yn achos y mwyafrif o swyddi sy'n anghymhwyso, ond yn dod yn anghymwys i fod yn Aelod Cynulliad os yw'n dal y swydd berthnasol ar yr adeg y bydd yn tyngu'r llw neu'n cadarnhau teyrngarwch ar ôl cael ei ethol. Golyga hyn na fyddai person yn gorfod ymddiswyddo o swyddi sy'n ei anghymhwyso er mwyn sefyll etholiad i fod yn Aelod Cynulliad. Mae hyn yn dileu rhwystr sylweddol i sefyll etholiad. Mae rhai swyddi anghymhwyso lle byddai hyd yn oed bod yn ymgeisydd yn achosi gwrthdaro buddiannau, er enghraifft Swyddogion Canlyniadau Etholiadol, neu aelodau'r Comisiwn Etholiadol, a byddai'n rhaid i ymgeisydd beidio â bod yn y swyddi hynny pan gaiff ei enwebu.

2. O ganlyniad, dylid dileu'r darpariaethau yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr, wrth dderbyn enwebiad, ddatgan nad ydynt yn dal swydd sy'n eu hanghymhwyso. Nid yw'r darpariaethau yn angenrheidiol gan y byddai'r rhan fwyaf yn dod yn anghymwys pan fyddant yn tyngu'r llw neu'n cadarnhau teyrngarwch.

3. Dylai'r rhestr o swyddi sy'n anghymhwyso gael ei gwneud yn gliriach, gyda'r swyddi perthnasol yn cael eu disgrifio'n llawn yn neddfwriaeth Cymru, yn hytrach na thrwy gyfeirio at ddeddfwriaeth arall.

4. Dylid diwygio Adran 16(1) o Ddeddf 2006 i ddileu'r cyfeiriad at Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn hytrach, dylid rhestru'r rheini gyda swyddi tebyg eraill yn y Gorchmynion Anghymhwyso perthnasol.

5. Dylid diwygio adran 16(4) o Ddeddf 2006 i egluro y dylai person sy'n dal swydd arglwydd raglaw, rhaglaw neu uchel siryf gael ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad mewn unrhyw fan yng Nghymru, yn

[30] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ***Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru***, Gorffennaf 2014

hytrach na dim ond yn yr etholaethau neu'r rhanbarthau hynny lle maent yn dal y swydd.

6. Am y rheswm bod gwrthdaro buddiannau wrth wasanaethu dwy ddeddfwrfa sy'n craffu ar ddeddfwriaeth, dylai aelodau o Dŷ'r Arglwyddi gael eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau Cynulliad. Argymhellodd y Pwyllgor na ddylai'r gwaharddiad fod yn gymwys i aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sydd hefyd yn Aelodau Cynulliad ar yr adeg y cyflwynwyd y ddeddfwriaeth i wahardd yr arfer hwn.

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 19.** A ddylai deddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad mewn perthynas ag anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad?

A oes unrhyw newidiadau eraill y dylid eu gwneud i'r trefniadau anghymhwyso?

Rhowch resymau am eich ateb.

# 5. A ddylid symleiddio'r gyfraith sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau?

## Y cefndir

Mae'r modd y caiff etholiadau eu cynnal a'u gweinyddu yng Nghymru a ledled y DU yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan gyrff annibynnol statudol a pherthnasol. Mae cyrff o'r fath yn gwneud argymhellion ynghylch sut y gellid symleiddio a gwella'r gyfraith etholiadol. Felly, gallai deddfwriaeth sy'n diwygio trefniadau etholiadol, gweithdrefnol a mewnol y Cynulliad fod yn gyfle i weithredu argymhellion perthnasol sy'n ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad.

## Diwygiadau posibl

Yn ei adroddiad ar etholiad y Cynulliad yn 2016, dywedodd y Comisiwn Etholiadol fod y rheolau yn *Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* wedi'u diweddaru fel nad yw costau sy'n ymwneud â chyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac fel arall, a chostau rhesymol y gellid eu priodoli i anabledd unigolyn, yn cyfrif tuag at derfynau gwariant ymgyrchwyr nad ydynt yn gysylltiedig â phlaid. Argymhellodd y Comisiwn Etholiadol y dylid cyflwyno esemptiadau tebyg mewn perthynas â gwariant o'r fath gan bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr.[31]

Gallai cyflwyno esemptiadau o'r fath mewn perthynas â chostau cyfieithu annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ystod ymgyrchoedd etholiad, ac o ran anabledd gallai leihau rhwystrau sydd efallai yn atal pobl ag anableddau rhag sefyll etholiad neu gymryd rhan mewn ymgyrchoedd gwleidyddol.

Fel rhan o'r Unfed Rhaglen ar Ddeg ar gyfer Diwygio'r Gyfraith, cynhaliodd Comisiynau'r Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon brosiect ar y cyd i ddiwygio cyfraith etholiadol. Yn yr adroddiad interim, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016, gwnaed argymhellion i symleiddio'r deddfau presennol sy'n ymwneud ag etholiadau yn un fframwaith deddfwriaethol, a fyddai'n sicrhau cysondeb ar draws gwahanol etholiadau (yn amodol ar wahaniaethu oherwydd y system bleidleisio neu egwyddor neu bolisi arall y gellir ei gyfiawnhau).[32] Roedd ei argymhellion yn ymdrin â materion fel y dull pleidleisio,

[31] Y Comisiwn Etholiadol, ***Etholiad Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: adroddiad ar weinyddu etholiadau 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru***, Medi 2016

[32] Comisiynau'r Gyfraith, ***Cyfraith Etholiadol: adroddiad interim***, 4 Chwefror 2016

troseddau etholiadol, a rheoleiddio gwariant ymgyrchu. Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth y DU wedi ymateb i adroddiad interim Comisiwn y Gyfraith.

Gallai deddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad fod yn gyfle i gynnwys darpariaeth sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion o'r fath a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ôl yr hyn fyddai'n berthnasol ac yn ddymunol o ran etholiadau'r Cynulliad.

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 20.** A ddylai deddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu:

- argymhellion y Comisiwn Etholiadol y dylai costau sy'n ymwneud â **chyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**, ac fel arall, beidio â chyfrif tuag at y terfynau gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad, fel yn achos ymgyrchwyr nad ydynt yn gysylltiedig â phlaid?
- argymhellion y Comisiwn Etholiadol y dylai costau sy'n ymwneud ag **anabledd unigolyn** beidio â chyfrif tuag at y terfynau gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad, fel yn achos ymgyrchwyr nad ydynt yn gysylltiedig â phlaid?
- argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â chynnal a gweinyddu etholiadau?

Rhowch resymau am eich atebion.

# 6. A ddylai'r Cynulliad fod â hyblygrwydd i benderfynu ar ei drefniadau mewnol?

Fel yn achos deddfwrfeydd datganoledig eraill y DU, mae'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithredu — ei weithdrefnau a'i arferion — yn cael eu pennu gan gyfuniad o ddarpariaethau deddfwriaethol, Rheolau Sefydlog y Cynulliad ei hun, ac arfer a chynsail.[33]

Mae'r gofynion sydd wedi eu nodi mewn deddfwriaeth, i'w canfod yn bennaf yn Neddf 2006. Pasiwyd y ddeddf hon gan Senedd y DU, a chyn hyn nid oedd gan y Cynulliad bŵer i newid y trefniadau. Bydd hyn yn newid ar 1 Ebrill 2018, pan fydd *Deddf Cymru 2017* yn rhoi pŵer i'r Cynulliad dros rai o'r trefniadau.

Er ei bod yn briodol bod rhai mesurau diogelwch yn cael eu pennu mewn deddfwriaeth — er enghraifft, trefniadau sy'n ymwneud â safonau, achosion cyfreithiol, neu bŵer y Cynulliad i alw tystion gerbron ei bwyllgorau — gall ymgorffori ffyrdd eraill o weithio mewn deddfwriaeth sylfaenol arwain at ddiffyg hyblygrwydd, gan lesteirio'r sefydliad rhag gweithredu'n effeithiol. Er enghraifft, mae *Deddf Cymru 2017* eisoes wedi dileu rhai darpariaethau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion y DU yn cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad, neu a oedd yn pennu sut y mae'n rhaid i'r system bwyllgorau weithredu.

Ar ôl 1 Ebrill 2018, bydd gan y Cynulliad bŵer i newid darpariaethau eraill yn Neddf 2006 sy'n llywodraethu ei ffyrdd mewnol o weithio, er mwyn sicrhau y ceir y cydbwysedd priodol rhwng mesurau diogelwch deddfwriaethol a hyblygrwydd sefydliadol.

[33] Y Rheolau Sefydlog yw'r rheolau ffurfiol sy'n pennu gweithdrefnau'r Cynulliad. Y Cynulliad sy'n cytuno arnynt, ac yn eu diwygio, drwy fwyafrif o ddwy ran o dair. Rhaid i unrhyw newidiadau gael eu cynnig i'r Cynulliad gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad, sy'n cynnwys cynrychiolydd o bob plaid a gynrychiolir yn y Cynulliad.

## Diwygiadau posibl

Byddai'r diwygiadau a gynigir gan y Comisiwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cynulliad benderfynu ar ei ffyrdd ei hun o weithio, ac i ymateb yn effeithiol i bwysau posibl yn sgil Cynulliad mwy o faint:

1. Cyflwyno hyblygrwydd o ran nifer y Dirprwy Lywyddion y caiff y Cynulliad eu hethol, a nifer y Comisiynwyr Cynulliad y caiff eu penodi. Byddai'r diwygiadau a gynigiwyd gan y Comisiwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cynulliad benderfynu ar ei ffyrdd ei hun o weithio, ac i ymateb yn effeithiol i bwysau posibl yn sgil Cynulliad mwy o faint.

2. Yn unol â diwygiadau a wnaed gan Senedd yr Alban yn 2012, cynyddu'r terfyn amser ar gyfer cynnal y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad y Cynulliad o saith niwrnod i bedwar diwrnod ar ddeg, a thrwy hynny rhoi mwy o gyfle i'r pleidiau gwleidyddol drafod a negodi â'i gilydd ar ôl etholiad. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig gyda systemau etholiadol cyfrannol fel yr un a ddefnyddir yn y Cynulliad, sy'n cael eu hystyried yn llai tebygol o greu llywodraethau lle mae gan un blaid fwyafrif.

3. Cynyddu'r terfyn amser y mae'n rhaid i'r Cynulliad ethol Dirprwy Lywydd o'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd, sef y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad, i 28 diwrnod, yn unol â'r terfyn amser ar gyfer ethol Prif Weinidog Cymru. Byddai hyn yn rhoi mwy o gyfle i'r pleidiau gwleidyddol drafod a negodi â'i gilydd ar ôl etholiad, ac i Aelodau sydd newydd eu hethol benderfynu a ydynt am gynnig eu henwau i fod yn Ddirprwy Lywydd, neu i ddod i adnabod cryfderau a gwendidau ymgeiswyr posibl.

### CWESTIYNAU

**Cwestiwn 21.** A ddylid diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori hon, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cynulliad benderfynu ar ei arferion a'i drefniadau gwaith ei hun drwy gyfrwng ei weithdrefnau mewnol yn hytrach na thrwy gyfrwng deddfwriaeth?

# 7. Pa effaith allai'r cynigion hyn eu cael?

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrannu at asesu effaith pob cynnig ar yr ieithoedd swyddogol, cydraddoldeb, a chyfiawnder. Bydd yr asesiadau hyn o'r effaith yn rhan o'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn cyd-fynd ag unrhyw Fil a gyflwynir i weithredu'r diwygiadau.

Y Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad, ac mae Comisiwn y Cynulliad yn cynnig arweinyddiaeth gref ac uchelgeisiol drwy ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Mae'r Cynulliad yn anelu at gael ei gydnabod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle y gall Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu drwy ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith swyddogol.

Hefyd, mae'r Comisiwn wedi ymrwymo'n llawn i hybu cydraddoldeb, i werthfawrogi amrywiaeth ac i barchu hawliau dynol yn ei gapasiti fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n rhoi cymorth i Aelodau'r Cynulliad ac sy'n rhyngweithio â'r cyhoedd.  Credwn bod cyfle cyfartal i bawb yn hawl ddynol sylfaenol, ac rydym yn gwrthwynebu'n frwd pob math o wahaniaethu anghyfreithlon ac annheg. Rydym yn anelu at greu corff seneddol hygyrch ac effeithiol, sy'n ymgysylltu â phawb yng Nghymru ac sy'n eu parchu.

## CWESTIYNAU

**Cwestiwn 22.** A oes unrhyw faterion, manteision neu risgiau a allai ddeillio o'r cynigion yn y ddogfen hon mewn perthynas â'r pynciau a ganlyn, pynciau nad ydynt yn cael eu trafod yn yr ymgynghoriad hwn, neu bynciau yr hoffech wneud sylwadau amdanynt?

- ieithoedd swyddogol y Cynulliad (Cymraeg a Saesneg)?
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant?
- y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr?

A ellid ailwampio unrhyw rai o'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau andwyol posibl?

Rhowch resymau am eich ateb.

**Cwestiwn 23.** A fyddai unrhyw rai o'r cynigion yn y papur hwn yn achosi i) costau neu ii) fanteision i chi neu i'ch sefydliad nad ydych wedi cyfeirio atynt eisoes yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn? Os felly, beth fyddai'r costau neu'r manteision hynny?

# Atodiad 1: Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad

I gael gwybodaeth gefndir a manylion y cynigion y mae'r cwestiynau'n ymwneud â hwy, ewch i'r dudalen berthnasol yn y ddogfen ymgynghori

**Cwestiwn 1.** Mae'r Panel Arbenigol wedi dod i'r casgliad bod angen rhwng 80 a 90 Aelod ar y Cynulliad i gyflawni ei rôl yn effeithiol.

- Ydych chi'n cytuno?
- Rhowch resymau am eich ateb.

**Cwestiwn 2.** A fyddai newid nifer yr Aelodau Cynulliad yn achosi i) costau, neu ii) manteision, i chi neu i'ch sefydliad? Os felly, beth fyddai'r costau neu'r manteision hynny?

**Cwestiwn 3.** Mae'r Panel Arbenigol wedi amlinellu tair system etholiadol bosibl a allai weithredu'n effeithiol yng Nghymru i ethol Cynulliad, sydd, fan lleiaf, yn cynnwys 80 Aelod:

- Y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy
- Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr Hyblyg
- Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg (a elwir hefyd yn System Aelodau Ychwanegol)

Pa un o'r systemau hyn fyddai fwyaf priodol ar gyfer ethol Aelodau'r Cynulliad a pham?

Rhowch resymau am eich ateb.

**Cwestiwn 4.** Ydych chi'n cytuno ag argymhelliad y Panel Arbenigol y dylid, wrth newid y system etholiadol, fanteisio ar y cyfle i roi anogaeth i ethol Cynulliad sy'n adlewyrchu'n well natur amrywiol cymdeithas yng Nghymru?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 5.** Os ydych chi'n cytuno â chwestiwn 4, ydych chi'n credu y dylid gwneud hyn trwy gyfrwng deddfwriaeth, fel cwotâu rhywedd ffurfiol, neu drwy gyfrwng dulliau llai ffurfiol, fel mesurau gwirfoddol gan bleidiau gwleidyddol?

Rhowch resymau am eich ateb.

**Cwestiwn 6.** Ydych chi’n cytuno y dylai pobl fod yn gallu sefyll i gael eu hethol i'r Cynulliad ar sail rhannu swydd?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 7.** Beth, os os gwbl, fyddai'r manteision neu'r risgiau a fyddai'n deillio o ganiatáu i bobl sefyll etholiad ar sail trefniadau rhannu swydd, yn eich barn chi?

**Cwestiwn 8.** Pe byddai'r Cynulliad yn mabwysiadu naill ai'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy neu'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr Hyblyg, a ddylai Aelodau'r Cynulliad gael eu hethol ar sail:

- 20 etholaeth sy'n seiliedig ar baru 40 etholaeth bresennol y Cynulliad
- 17 etholaeth sy'n seiliedig ar 22 ardal awdurdodau lleol presennol Cymru?
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 9.** A fyddai newid system etholiadol y Cynulliad yn achosi i) costau neu ii) fanteision i chi neu i'ch sefydliad? Os felly, beth fyddai'r costau neu'r manteision hynny?

**Cwestiwn 10.** I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad a ganlyn:

Dylai'r un bobl gael caniatâd i bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn etholiadau llywodraeth leol Cymru.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 11.** Beth fyddai'r goblygiadau pe bai gwahaniaethau rhwng y sawl a allai bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad a'r sawl a allai bleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol Cymru?

**Cwestiwn 12.** Ar ba oed y dylid cael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?

- 16
- 18
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 13.** A fyddai gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn achosi i) costau neu ii) manteision i chi neu i'ch sefydliad? Os felly, beth fyddai'r costau neu'r manteision hynny?

**Cwestiwn 14.** A oes unrhyw faterion, manteision neu risgiau eraill yr hoffech i ni eu hystyried mewn perthynas â newid yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad? Rhowch resymau am eich ateb.

**Cwestiwn 15.** I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad a ganlyn:

Dylai pob un sy'n byw'n gyfreithlon yng Nghymru, ni waeth beth yw ei genedligrwydd na'i ddinasyddiaeth, gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 16.** A oes unrhyw faterion, risgiau neu fanteision eraill yr hoffech i ni eu hystyried mewn perthynas â newid hawliau pobl sy'n byw yn gyfreithlon yng Nghymru, ond nad ydynt yn wladolion y DU, bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad? Rhowch resymau am eich ateb.

**Cwestiwn 17.** I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ganlyn:

17(i) Dylai carcharorion a ryddhawyd ar drwydded dros dro neu dan gyrffyw lle maent yn cael eu cyfyngu i'r cartref gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, yn unol â bwriad Llywodraeth y DU ar gyfer etholiadau'r DU.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

17(ii) Dylai carcharorion y mae eu dyddiad rhyddhau yn disgyn cyn diwedd tymor y Cynulliad y maent yn pleidleisio ar ei gyfer, gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 18.** A oes unrhyw faterion, risgiau neu fanteision eraill yr hoffech i ni eu hystyried mewn perthynas â newid hawliau carcharorion i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad? Rhowch resymau am eich ateb.

**Cwestiwn 19.** A ddylai deddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad mewn perthynas ag anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad?

A oes unrhyw newidiadau eraill y dylid eu gwneud i'r trefniadau anghymhwyso?

Rhowch resymau am eich ateb.

**Cwestiwn 20.** A ddylai deddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu:

- argymhellion y Comisiwn Etholiadol y dylai costau sy'n ymwneud â chyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, ac fel arall, beidio â chyfrif tuag at y terfynau gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad, fel yn achos ymgyrchwyr nad ydynt yn gysylltiedig â phlaid?
- argymhellion y Comisiwn Etholiadol y dylai costau sy'n ymwneud ag anabledd unigolyn beidio â chyfrif tuag at y terfynau gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad, fel yn achos ymgyrchwyr nad ydynt yn gysylltiedig â phlaid?
- argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â chynnal a gweinyddu etholiadau?

Rhowch resymau am eich atebion.

**Cwestiwn 21.** A ddylid diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori hon, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cynulliad benderfynu ar ei arferion a'i drefniadau gwaith ei hun drwy gyfrwng ei weithdrefnau mewnol yn hytrach na thrwy gyfrwng deddfwriaeth?

**Cwestiwn 22.** A oes unrhyw faterion, manteision neu risgiau a allai ddeillio o'r cynigion yn y ddogfen hon mewn perthynas â'r pynciau a ganlyn, pynciau nad ydynt yn cael eu trafod yn yr ymgynghoriad hwn, neu bynciau yr hoffech wneud sylwadau amdanynt?

- ieithoedd swyddogol y Cynulliad (Cymraeg a Saesneg)?
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant?
- y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr?

A ellid ailwampio unrhyw rai o'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau andwyol posibl?

Rhowch resymau am eich ateb.

**Cwestiwn 23.** A fyddai unrhyw rai o'r cynigion yn y papur hwn yn achosi: i) costau neu ii) fanteision i chi neu i'ch sefydliad nad ydych wedi cyfeirio atynt eisoes yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn? Os felly, beth fyddai'r costau neu'r manteision hynny?



# Atodiad 2: Datganoli yng Nghymru ers 1999

Mae rôl a chyfrifoldebau'r Cynulliad a'i Aelodau wedi newid yn sylweddol ers 1999.

**1999**

Sefydlwyd y Cynulliad gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*, gyda phwerau cyfyngedig i wneud is-ddeddfwriaeth.

**2002**

Y Cynulliad yn penderfynu gwahanu ei swyddogaethau gweithredol a deddfwriaethol ac yn sefydlu Comisiwn Richard ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**2004**

Comisiwn Richard yn cyflwyno adroddiad, a oedd yn gwneud argymhellion i gynyddu pwerau a maint y Cynulliad.

**2006**

*Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn gwahanu'r ddeddfwrfa a'r weithrediaeth yn ffurfiol ac yn rhoi pwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad o fewn fframwaith y Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol.

**2011**

Ar ôl refferendwm, cafodd y Cynulliad bwerau deddfu sylfaenol heb orfod cynnwys San Steffan neu Whitehall.

Llywodraeth y DU yn sefydlu Comisiwn Silk i ystyried dyfodol y setliad datganoli yng Nghymru.

**2012**

Comisiwn Silk yn cyhoeddi Rhan I o'i adroddiad, a oedd yn gwneud argymhellion ar bwerau ariannol y Cynulliad.

**2014**

Comisiwn Silk yn cyhoeddi Rhan II o'i adroddiad, a oedd yn gwneud argymhellion ar bwerau a threfniadau deddfwriaethol y Cynulliad yn y dyfodol.

**2015**

Llywodraeth y DU yn cyhoeddi *Pwerau at Bwrpas*, a oedd yn sail ar gyfer datblygu model o ddatganoli i Gymru a oedd yn seiliedig ar gadw pwerau.

**2016**

Y Cynulliad yn pasio *Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016* i baratoi ar gyfer arfer y pwerau trethiant a benthyca a ddatganolwyd gan Ddeddf Cymru 2014.

Dechrau rôl y Cynulliad o ran goruchwylio trafodaethau'r DU ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd, gan graffu ar ddeddfwriaeth berthnasol, a diffinio lle Cymru yn y DU ar ôl Brexit.

**2018**

Cychwyn model pwerau wedi'u cadw'n ôl ar gyfer datganoli o dan Ddeddf Cymru 2017

Daw'r trethi Cymreig cyntaf i rym.


**2019**

Gweithredu pwerau i amrywio trethi, fel y darperir gan *Ddeddf Cymru 2014*.

# Atodiad 3: Modelau o'r etholaethau aml-aelod arfaethedig

**Opsiwn 1: 20 etholaeth yn seiliedig ar baru etholaethau presennol y Cynulliad**

1. Arfon ac Ynys Môn
2. Aberconwy a Dwyfor Meirionydd
3. Dyffryn Clwyd a Gorllewin Clwyd
4. Delyn ac Alun a Glannau Dyfrdwy
5. De Clwyd a Wrecsam
6. Brycheiniog a Sir Faesyfed a Sir Drefaldwyn
7. Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr a Cheredigion
8. Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro a Phreseli Sir Benfro
9. Llanelli a Phenrhyn Gŵyr
10. Gorllewin a Dwyrain Abertawe
11. Aberafan a Chastell-nedd
12. Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg
13. Ogwr a Rhondda
14. Cwm Cynon a Phontypridd
15. Caerffili a Merthyr Tudful
16. Blaenau Gwent a Islwyn
17. Sir Fynwy a Thorfaen
18. Gorllewin a Dwyrain Casnewydd
19. Canol Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth
20. Gogledd a Gorllewin Caerdydd





Allwedd

Etholaeth wedi'i Pharu

Etholaeth Bresennol


**Cynhyrchwyd gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017. Arolwg Ordnans [100047295]

**Opsiwn 2: 17 etholaeth yn seiliedig ar ardaloedd awdurdodau lleol**




1. Gwynedd ac Ynys Môn
2. Conwy a Sir Ddinbych
3. Sir y Fflint
4. Wrecsam
5. Powys
6. Ceredigion a Sir Benfro
7. Sir Gaerfyrddin
8. Abertawe
9. Castell-nedd Port Talbot
10. Pen-y-bont ar Ogwr
11. Rhondda Cynon Taf
12. Caerffili a Merthyr Tudful
13. Blaenau Gwent a Thorfaen
14. Bro Morgannwg
15. Gogledd a Gorllewin Caerdydd
16. De Caerdydd a Chanol Caerdydd
17. Sir Fynwy a Chasnewydd

Allwedd

 Ffiniau awdurdodau lleol

**Cynhyrchwyd gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017. Arolwg Ordnans [100047295]